# Gwanwyn 2026 Etholiadau'r

## Gwybodaeth I'R Ymgeiswyr

# LLONGYFARCHIADAU
# CONGRATULATIONS

Gwybodaeth i'r Ymgeiswyr





# Tîm Eich Ymgyrch Etholiadol

- **NUS Charity**, Swyddog Etholiadau
- **Jacob Webb**, Dirprwy Swyddog Etholiadau
- **Aisleen Sturrock,** Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth

BE PART OF SOMETHING
ELECTIONS
BYDDA'N RHAN O RYWBETH
ETHOLIADAU

# Yn dod nesaf...

- Dyddiadau Allweddol
- Rheolau ar gyfer Ymgeiswyr
- Cwynion
- Ymgeiswyr sy'n Sefyll
- Y Broses Bleidleisio
- Treuliau / Deunyddiau Ymgyrchu
- Cyngor ar Ymgyrchu
- Llesiant Ymgeiswyr
- Cwestiynau ac Atebion




# Cyflwyniad

1. Beth yw eich enw?
2. Am ba rôl ydych chi'n sefyll?
3. Pam benderfynoch chi sefyll?



Rydyn ni'n cael **ein llywio gan fyfyrwyr** – Eich llais chi sy'n cyfrif fwyaf

# Pam fod ganddom ni etholiadau?

- Ein nod yw ethol pobl mewn modd teg a rhydd.
- Yr etholiadau yw ein gweithdrefn i'n haelodau (myfyrwyr) ddewis eu cynrychiolwyr.
- Ble bynnag y bo modd, yr aelodau (myfyrwyr) ddylai wneud y penderfyniadau.
- Nid rhoi'r un cyfle i bawb ennill yw ein pwrpas ni, ond i roi un teg.

# Etholiad Cadarnhaol: yr ymddygiad a ddisgwylir

- Ymgyrchu Cadarnhaol vs Negatif
- Heriwch bolisïau nid unigolion.
- Byddwch yn ystyrlon o eraill.
- Decheuwch fel rydych chi'n bwriadu parhau.



# Dyddiadau Allweddol: Etholiadau'r Gwanwyn 2026

- **Sefyll yn agor** – 10am, dydd Llun 26ain Ionawr
- **Dyddiad Cau Cyhoeddusrwydd** – 12pm, dydd Llun 23ain Chwefror
- **Pleidleisio yn Agor** - 6pm, 24ain Chwefror
- **Pleidleisio yn Cau** – 10am dydd Llun 16eg March
- **Dyddiad Cau Cwynion** – 12pm dydd Gwener 20fed Mawrth
- **Canlyniadau** – 6pm dydd Gwener 20fed Mawrth






# Rheolau ar Ymgeiswyr

# Y Rheolau - Eu Diben


- Wedi'u llunio i helpu â chreu "maes chwarae gwastad" rhwng ymgeiswyr
- Mae cyfyngiadau serch hynny... Ffrindiau (Ar-lein ac Oddi-ar-lein)
- Ceisio rheoli ymddygiad a defnydd o adnoddau heb amharu ar greadigrwydd
- Mae deddfau a rheolau ehangach sy'n rheoli ymddygiad unigolion a myfyrwyr yn parhau mewn grym.
- Mae ymdeimlad o chwarae teg a chystadleuaeth gyfeillgar yn adlewyrchu'n dda arnoch chi a'r holl broses – ac mae'n ennill mwy o bleidleisiau!



# Y rheolau — egwyddorion allweddol



Peidiwch â gwneud unrhyw beth na fydd gan ymgeiswyr eraill gyfle cyfartal i'w wneud;



Parchwch bob myfyriwr, ymgeisydd ac aelod o staff.

# Y rheolau – Tîm Ymgyrchu

- **Tîm Ymgyrchu** = "Ymgyrchwyr sy'n eich helpu chi yn ystod yr etholiad".
- **Ymgyrchydd** = "Rhywun yr ystyrir ei fod yn gweithredu ar ran ymgeisydd i wella cyfle'r ymgeisydd hwnnw".
- **Ymgyrchu** = "Gweithio mewn ffordd drefnus a gweithredol tuag at amcan penodol, er enghraifft etholiad ymgeisydd".

**Chi sy'n gyfrifol am yr hyn maen nhw'n ei wneud.**

.

# Llechi ac ymgyrchoedd ar y cyd

- Cewch sefyll fel dau gan eich trin fel un ymgeisydd
- Caniateir hyrwyddo llechi ac ymgyrchoedd ar y cyd - gan eu trin fel un ymgeisydd
- Mae cyhoeddusrwydd ar y cyd yn iawn - Ni chaiff cyllidau eu cyfuno.
    - Dim cyfuno eitemau.
    - Dim swmp ddisgowntiau yn fwy na’r hyn fyddai ar gael i unigolyn.





# Clybiau chwaraeon a chymdeithasau

- Gall clybiau chwaraeon a chymdeithasau eich helpu chi.
- Ni chânt wario arian neu adnoddau ar eich ymgyrch.
- Dim gwrthdaro buddiannau – peidiwch â gwneud unrhyw beth nad oes gan bobl eraill gyfle i'w wneud hefyd.
- Rhaid cefnogi yn unol â phrosesau arferol y Clybiau a'r Cymdeithasau, a rhaid dangos tystiolaeth os gofynnir i chi wneud hynny.
- Mae'n fanteisiol i chi sicrhau y caiff y prosesau eu dilyn.

# Cyhoeddusrwydd ar y Campws


- Peidiwch â rhwystro neu leihau gwelededd cerddwyr ger ffyrdd, croesfannau, meysydd parcio neu fannau aros.
- Peidiwch â rhwystro mynediad i unrhyw allanfeydd tân neu ddrysau.
- Mae posteri yn yr Undeb yn iawn ar y cyfan ond peidiwch â defnyddio selotep.
- Ceir gadael pamffledi ar fyrddau ond efallai y ceir gwared arnynt.
- Ni chaiff staff wisgo unrhyw beth sy'n hyrwyddo ymgyrch tra'n gweithio.
- Os oes amheuaeth, ewch i holi bob tro

# Y rheolau – Peidiwch â...

- Chynhyrchu cyhoeddusrwydd sarhaus neu ddifrïol.
- Atal etholwyr rhag pleidleisio'n rhydd ac yn gyfrinachol, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau'n amhriodol.
- Bwrw pleidlais ar ran rhywun arall

# Y rheolau – Peidiwch â…

- × Defnyddio adnoddau'r Brifysgol neu Undeb y Myfyrwyr gan gynnwys rhestrau e-bostio (oni chewch ganiatâd gan y Swyddog Etholiadau).
- × Hagru nac ymyrryd ar gyhoeddusrwydd ymgeiswyr eraill.
- × Llwgrwobrwyo'r pleidleiswyr neu swyddogion yr etholiad.
- × Bygwth neu aflonyddu ar bleidleiswyr neu swyddogion yr etholiad.



# Ymgeiswyr a Chefnogwyr Swyddogion Llawn Amser presennol

- Rhaid iddynt **gymryd gwyliau** os ydyn nhw am fynd ati i ymgyrchu yn ystod oriau swyddfa arferol.
- **Ni chaniateir defnyddio unrhyw adnoddau** sy’n perthyn i’w rôl bresennol
- **Ni chaniateir iddynt helpu gydag unrhyw stondinau**, neu hysbysebion etholiadol, boed yn ymgeisydd, neu’n hyrwyddo’n gyhoeddus.
- **Rhoddir cyfyngiadau ar y cyfryngau cymdeithasol/cyhoeddusrwydd** yn y gwaith ar Swyddogion Llawn Amser sydd yn ymgeiswyr, yn sgil sesiwn briffo’r ymgeiswyr.



# I grynhoi...

- ✓ **Teg** – Caiff yr etholiad ei gynnal drwy bleidlais gudd a chydsyniol.
- ✓ **Annibynnol** – ni fydd UMAber yn cefnogi unrhyw ymgeisydd.
- ✓ **Parch** –Mae UMAber yn disgwyl parch i'r holl fyfyrwyr a'r staff.
- ✓ **Llawn hwyl a chadarnhaol** – Rydyn ni am iddo fod yn brofiad y bydd pawb yn ei fwynhau.




# Cwynion Etholiad

# Cwynion

- Rhaid eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar dudalen etholiadau gwefan yr Undeb. NI ALLWN dderbyn cwynion yn bersonol.
- Os bydd angen, bydd y DSE yn ymchwilio i gael tystiolaeth bellach.
- Bydd y Swyddog Etholiadau (Gwasnaeth Cymorth Etholiadau UCM) yn dyfarnu ar gwynion.
- Ni fydd modd cyfri pleidleisiau tan ar ôl ymdrin â phob cwyn.
- Rhaid i'r cwynion fod yn amserol a gydag ewyllys da – 1yh, mis Mawrth 20 yw terfyn amser pob cwyn.

# Apeliadau

- Rhaid cyflwyno'r ffurflen apeliadau a geir ar dudalen yr etholiadau ar wefan yr Undeb. Ni fyddwn yn derbyn cwynion wyneb yn wyneb
- Pan fydd apêl yn ymwneud ag ymgeisydd, dim ond rhywun sydd wedi cael ei gosbi all apelio.
- Must specifically state the ground on which the appeal is being made.
- Rhaid ei chyflwyno erbyn 12pm ar y diwrnod ar ôl i'r SE wedi gwneud penderfyniad ar gŵyn fan bellaf.
- Daw panel ynghyd fydd yn cynnwys Ysgrifennydd y Brifysgol a dau aelod annibynnol.
- Y panel apeliadau fydd â'r penderfyniad terfynol.
- Ni chaiff pleidleisiau eu cyfri na'u cyhoeddi (ar gyfer rôl) nes caiff pob cwyn ac apêl eu datrys.




# Yr Ymgeiswyr sy'n Sefyll

umaber.co.uk | abersu.co.uk

**Llywydd Academaidd**

- Laura Young
- Mody Camara
- Tina Koch
- RON

**Llywydd Cyfleoedd**

- Francesco Lanzi
- Ioan Jones
- Anisa Mudassar
- RON

**Llywydd UMCA**

- Gwenno Roberts
- RON





## Llywydd Lles a Rhyddid

- Abby Leech
- Alice Leroy
- Ayobami Omotayo
- Ceridwen Pruitt
- John Hinchliff
- Kirstie Vaughan
- Mason Gee
- Sam Peach
- Shikha Rani Pradhan
- Tanaka Chikomo
- RON

## Swyddog yr Iaith Gymraeg

- Elliw Mair
- RON

## Swyddog yr Amgylchedd a Chynaladwyedd

- Joshua Brownbridge
- Kyra Ellis
- RON

## Swyddog y Myfyrwyr Rhyngwladol

- Ebenezer Smith Baidoo
- RON

## Cadeirydd yr Undeb

- Tomos Akash Padel
- RON

**Swyddog y Myfyrwyr LHDTC+**
- Bryn Talbot
- RON

**Swyddog Myfyrwyr Traws ac o Rywedd Anghydffurfiol**
- Rowan Peill
- RON

**Swyddog y Menywod**
- Jessica Pritchard
- Natasha Goodwin & Ava Conlon
- Emma Fawcett
- RON






**Swyddog y Myfyrwyr Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig**

- Anisa Mudassar
- RON

**Swyddog y Myfyrwyr Anabl**

- John Hinchliff
- Nick Green
- RON

**Swyddog y Myfyrwyr Hyn**

- Mesh Tamilchelven
- RON

**Swyddog Myfyrwyr Annibynnol**

- Jack Squire
- RON

**Cyfadran y Celfyyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol Swyddogion Cyfadrannau**

- Alfred Afriyie
- Megan Taki Owen
- RON

**Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol Swyddogion Cyfadrannau**

- Sian Groom
- Tia Narayana
- Will Caraher
- RON







# Y Broses Bleidleisio


# Rhyfeddodau'r bleidlais drosglwyddadwy

- Etholir yr ymgeisydd "lleiaf amhoblogaidd".
- Mae pleidleiswyr yn gosod yr ymgeiswyr yn eu dewis drefn.
- Os na allaf gael Jane (#1), fe gaf i Tom (#2), neu fel arall Alan (#3).
- Weithiau cyfeirir ati fel Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy neu Bleidlais Amgen Drosglwyddadwy.


# Rownd 1 – Mae pawb yn dwli ar Lucy



# Rownd 2 – Ben yn dod I’r amlwg



# Rownd 3 – Druan Â Lucy!



# Sut mae myfyrwyr yn pleidleisio?

- Cynhelir y pleidleisio drwy wefan Undeb y Myfyrwyr
- Unrhyw broblemau, cyfeiriwch fyfyrwyr at undeb.etholiadau@aber.ac.uk




# Treuliau ac Adnoddau Ymgeiswyr

# Gwariannau Ymgyrchu – Arian a Derbynebau

- Gwariant hyd at £30 i Swyddogion Llawn Amser ac £20 i Swyddogion Gwirfoddol yn unig.
- Bydd y rheini sy’n sefyll fel pâr yn cael eu hystyried yn un ymgeisydd.
- Mae’n rhaid i bob derbynneb gael ei gyflwyno erbyn 1pm dydd Gwener 20fed Mawrth.. (mae proforma i’w gael ar Hyb yr Etholiadau).



# Costau Argraffu

- Ceir argraffu mewn du a gwyn gan yr Undeb am ddim - A6, A5, A4 ac A3
- Dylid cyflwyno ceisiadau i union.elections@aber.ac.uk i'w nol o'r dderbynfa erbyn y diwrnod gwaith nesaf.
- Caiff argraffu mewn lliw ei dynnu oddi ar gyllid yr ymgeisydd A4 5c / A3 10c
- Dylid nodi costau printio gydag argraffwyr y tu allan i'r UM fel y canlyn:
  - 1x A4 Du a Gwyn 3c / Lliw 5c
  - 1x A3 Du a Gwyn 5c / Lliw 10c
- Lle bo'n bosib, rydyn ni am i ymgeiswyr ddefnyddio cyn lleied o bapur â phosib fel na fydd gormod o wastraff papur.



# Adnoddau Ar-Lein

Cofiwch hefyd fod llawer o adnoddau ar-lein yn darparu fersiynau am ddim sydd ar gael i bob ymgeisydd…

- Canva – www.canva.com (Ni ellir defnyddio cyfrif cymdeithas/clwb a dalwyd amdano)
- Office 365
- Google Docs/Sheets/Slides/Forms



# Cyfieithu

- Bydd cyfieithu ar gael i'r ymgeiswyr drwy wasanaeth cyfieithu'r Undeb
- Rhoddir blaenoriaeth i Gyhoeddusrwydd a Chrynodebau.
- Os hoffech chi wneud cais am gyfieithu, e-bostiwch eich testun i undeb.etholiadau@aber.ac.uk gan nodi cyfrif geiriau eich cais.
- Cyngor… cadwch e'n fyr ac yn gryno er mwyn ei gael yn ôl yn gyflymach!
- **Dyddiad – 9am dydd Mercher 25ain Chwefror**

BE PART OF SOMETHING
ELECTIONS
BYDDA'N RHAN O RYWBETH
ETHOLIADAU




# Cyngor ar Ymgyrchoedd

# Rhowch Dîm Ymgyrchu at ei gilydd

- Casglwch ynghyd amrywiaeth o bersonoliaethau cryf.
- Ydych chi'n pennu cyfrifoldebau neu dasgau?
- Mae'n bwysig cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw.
- Rhowch gefnogaeth iddyn nhw, anogwch nhw, a diolchwch iddyn nhw!
- Cofiwch: chi sy'n gyfrifol am eu gweithredoedd.

# Siaradwch â'r myfyrwyr

"Roedd pleidleiswyr y cysylltwyd â nhw wyneb yn wyneb 21 pwynt canran yn fwy tebygol o bleidleisio dros yr ymgeisydd ar ôl siarad ag ef/hi am lai na 10 eiliad, o'u cymharu â'r rheiny na siaradwyd o gwbl â nhw"


"Canfu'r arbrawf nad oedd yn amlwg bod pleidleiswyr y cysylltwyd â nhw dros y ffôn neu drwy gardiau post yn fwy tebygol o bleidleisio na'r rheiny na chafodd dim byd. Ond roedd canfasio'n wahanol. Cafodd un sgwrs bersonol effaith sylweddol ar debygolrwydd pleidleisiwr i fwrw ei bleidlais, gan gynyddu nifer y pleidleiswyr 20 y cant (neu tua 9 pwynt canran)"

"Cawsom fod ymweliad cyflym gan yr ymgeisydd yn gwella'r gefnogaeth i'r ymgeisydd yn sylweddol beth bynnag fo natur y neges a gyfleuwyd. Mae'n debyg bod gwneud yn well na dweud"

Y Gymdeithas Economaidd Frenhinol

# Cyhoeddusrwydd a chrynodeb

- “Darllenais i ei cyhoeddusrwydd” yw’r rheswm mwyaf dros bleidleisio
- Cryno, penodol, â strwythur iddo
- Gofynnwch am adborth
- Dysgwch y cynnwys ar eich cof
- Commonly used Welsh translations are available on the Candidate Hub to make bilingual publicity easier



# Syniadau Ymgyrchu

Defnyddio systemau hysbysebu Cyfryngau Cymdeithasol i hyrwyddo tudalen eich ymgyrch.

Gweithio gyda ffrindiau neu dîm ymgyrchu i roi fideo ymgyrchu bachog at ei gilydd.

Siarad â myfyrwyr. Mewn darlithoedd? Y tu allan i'r llyfrgell? Mewn clwb?

# Dwedwch yr hyn sydd angen iddynt ei wybod

- Eich enw, y rôl
- Bod angen iddyn nhw roi #1 ger eich enw chi.
- Ble a sut mae modd pleidleisio.
- Y dyddiadau.



# Manteisiwch ar grynodebau 60 eiliad

- Fidio o bob ymgeisydd yn cyflwyno eu hymgyrch mewn 60 o eiliadau a’r rhesymau pam mai nhw fydd orau ar gyfer y rôl dan sylw.
- Gwneir fideos dydd Iau, mis Chwefror 26, 10yb - 2yh



# Lluniau!

- I’w tynnu heddiw!
- X2 o luniau – un syml ac un hwyliog, a’u tynnwyd yn ddelfrydol yn erbyn wal gwyn ac o’r ysgwyddau i fyny, mewn lle gyda golau da (peidiwch â gwisgo dillad sydd â logo’r Undeb na’r Brifysgol arno).





# Learn more:
# Sut mae cynnal ymgyrch etholiadol llwyddiannus

- Dydd Gwener 27ain Chwefror, 12pm – 1pm
- Microsoft Teams
- Mae'r sesiwn hon i bawb sy'n sefyll yn yr etholiadau. Dysgu am sut i gynllunio ymgyrchoedd gydag effaith, denu sylw pleidleiswyr yn effeithiol, a rheoli eich amser wrth greu strategaeth cryf a hygyrch. Cael cyngor ymarferol, rhwydweithio gyda'ch cyfoedion, a rhoi dechrau ar eich taith i greu newid gwirioneddol.






# Liesiant Ymgeiswyr

# Mae'n bwysig edrych ar ôl eich hun

- Sicrhewch eich bod chi'n cael 7-8 awr o gwsg bob nos.
- Trefnwch rywbeth i edrych ymlaen ato ac amseroedd i gael seibiant rhag yr etholiadau.
- Cwblhewch unrhyw waith brys cyn i'r bleidlais agor fel bod modd i chi flaenoriaethu'ch ymgyrch yn ystod wythnos y bleidlais.
- Paratowch i ennill ac i golli – paratowch ar gyfer ar ôl yr etholiadau.
- Deall a blaenoriaethu eich anghenion unigol

# Ystyried tynnu'n ôl?

- Byddwch yn glir o ran pam.
- Meddyliwch am hyn yn rhesymegol, fel pe baech chi'n ymgeisio am swydd.
- Trafodwch â rhywun ymlaen llaw.
- Ystyriwch gadw eich enw ar y papur pleidleisio.
- Caniateir cyfnod gras o 24 awr i'r holl ymgeiswyr

# Parti Te Ymgeiswyr

- I'ch helpu chi a'ch tîm ymgyrchu ymlacio ar ôl i'r pleidleisio gau.
- Undeb Aber Picture House 12pm - 2pm Dydd Gwener 20fed Mawrth
- Dewch draw i gymysgu



umaber.co.uk | abersu.co.uk

Canlyniad mis Mawrth 20 am 6yh yn yr Ystafell Fawr - yn amodol ar ganlyniad cwynion

# Canlyniadau

- Canlyniadau mis Mawrth 20 am 6yh yn yr Ystafell Fawr - pending outcome of complaints
- Terfyn amserlen 1yh, dydd Gwener mis Mawrth 20
- Rhaid anfon Ffurflenni Costau at union.elections@aber.ac.uk erbyn 1yh, dydd Gwener mis Mawrth 20 (ceir y ffurflenni ar Ganolfan yr Etholiadau)



# Etholiadau’r UM: Sesiynau Gwybdoaeth

| | | |
|---|---|---|
| **Dyletswyddau a Chyfrifoldebau** | **Dydd Mercher 25ain Chwefror, 12pm – 1pm** | **Microsoft Teams** |
| **Sut mae cynnal ymgyrch etholiadol llwyddiannus** | **Dydd Gwener 27ain Chwefror, 12pm – 1pm** | **Microsoft Teams** |



# Cwestiynau?

# E-bostiwch:

**undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

**neu jaw151@aber.ac.uk**